Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Swyddfa Farnwrol

# Diwygio'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

## Ymateb i'r Ymgynghoriad ar strwythurau gweinyddol yr ynadaeth yn y dyfodol

CP 1548

Government of the United Kingdom

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

# Diwygio'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

## Ymateb i'r Ymgynghoriad ar strwythurau gweinyddol yr ynadaeth yn y dyfodol

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder Orchymyn Ei Fawrhydi

Mawrth 2026

CP 1548

**© Hawlfraint y Goron 2026**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn ljaconsultation@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-6358-8

E03572403 03/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolydd Swyddfa Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Rhagair** 3

**Cyflwyniad a manylion cyswllt** 5

Cwynion neu sylwadau 5

**Cefndir** 6

Sut y gwnaethom ymgynghori 7

**Crynodeb o'r Ymatebion** 8

Themâu Cyffredinol 8

Strwythur Amgen ar gyfer Grwpio Llysoedd Ynadon 8

Recriwtio a Phwyllgorau Ymgynghorol 9

Dyrannu 10

Arweinyddiaeth Mainc 10

Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau (TAAACs) 11

Effeithiau ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg 11

**Dadansoddiad o Ymatebion i Gwestiynau Unigol** 12

Pennod 1: Beth yw Ardaloedd Cyfiawnder Lleol a pham eu bod yn cael eu diddymu? 12

Pennod 2: Strwythur gweinyddol amgen ar gyfer grwpio llysoedd ynadon 13

Pennod 3: Recriwtio a Phwyllgorau Ymgynghorol 16

Pennod 4: Dyrannu 19

Pennod 5: Arweinyddiaeth Mainc 29

Pennod 6: Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau (TAAACs) 36

**Asesiad o Effaith, Cydraddoldeb a'r Gymraeg** 46

Asesiad o Effaith 46

**Datganiad Cydraddoldeb** 49

Y Gymraeg 49

**Casgliad a'r Camau Nesaf** 50

**Egwyddorion Ymgynghori** 51

**Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr** 52

**Atodiad B: Tablau** 54

# Rhagair

## Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol

Rwyf yn ddiolchgar i'r nifer fawr o ynadon, partneriaid cyfiawnder ac aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn. Mae lefel uchel yr ymgysylltiad, ynghyd â natur ystyriol ac adeiladol yr adborth, yn adlewyrchu'r rôl hanfodol y mae ein hynadon gwirfoddol yn ei chwarae wrth gyflawni cyfiawnder lleol ledled Cymru a Lloegr. Mae eich ymrwymiad, eich profiad a'ch mewnwelediad yn parhau i fod yn sail i gryfder ein hynadaeth.

Archwiliodd yr ymgynghoriad hwn y ffordd orau o strwythuro'r system ynadon yn dilyn diddymu'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs). Er i lawer o atebwyr gefnogi'r egwyddor o symleiddio ffiniau, clywsom bryderon clir ynghylch effaith creu ardaloedd mainc mwy o faint, yn enwedig y risg o deithiau hirach, colli hunaniaeth leol, a heriau o ran recriwtio a chadw ynadon.

Mae eich adborth wedi llywio'r penderfyniadau a nodir yn yr ymateb hwn, ac rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r model arfaethedig o 58 o feinciau. Yn hytrach, byddwn yn cadw'r ffiniau daearyddol presennol ac yn mapio'r meinciau gweinyddol newydd ar sail y 75 o LJAs cyfredol. Rydym wedi gwrando ar bryderon yr ynadon, ac mae'n hollbwysig bod y strwythur lleol y mae ynadon yn gweithredu oddi mewn iddo yn addas iddynt. Diolch unwaith eto i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad hwn, ac sy'n parhau i gyfrannu at y system gyfiawnder bob dydd fel ynadon.

**Sarah Sackman CB AS**

Y Gweinidog Gwladol dros y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol

## Rhagair gan yr Uwch Farnwr Llywyddol

Pan lansiwyd yr ymgynghoriad hwn, pwysleisiais bwysigrwydd clywed gan bawb sy'n cyfrannu at gyflawni cyfiawnder ar lefel leol. Yr wyf yn hynod ddiolchgar i'r nifer fawr o ynadon, cynghorwyr cyfreithiol, staff y llysoedd, defnyddwyr proffesiynol y llysoedd a sefydliadau a gymerodd yr amser i ymateb. Mae eich safbwyntiau wedi bod yn ganolog i lunio'r dull a nodir yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

Rydych wedi ein helpu i ddeall yn well nid yn unig y cyfleoedd a gyflwynir gan ddiddymu'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs), ond hefyd ystyriaethau ymarferol y mae'n rhaid iddynt gyd-fynd â throsglwyddiad o'r fath. Mae'r ymatebion wedi llywio ein hystyriaeth o faterion hanfodol megis dyrannu adnoddau, arweinyddiaeth a hyfforddiant, a byddant yn cynorthwyo i gefnogi datblygiad parhaus trefniadau clir, cyson ac effeithiol ledled Cymru a Lloegr. Gyda'n gilydd gallwn foderneiddio'r fframwaith y mae ynadon yn eistedd oddi mewn iddo, cryfhau hyblygrwydd ein llysoedd, a helpu i sicrhau y gellir rheoli a gwrando ar achosion yn fwy effeithlon.

Fel y nodais hefyd ar y cychwyn, mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd ag adolygiad ar wahân o lywodraethu'r ynadaeth. Mae'r mewnwelediadau a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad hwn o berthnasedd uniongyrchol i'r ymarfer hwnnw, a byddant yn fy nghynorthwyo i sicrhau bod y diwygiadau llywodraethu yn adlewyrchu realiti'r modd y mae ynadon yn gweithredu a'r ffordd y gweinyddir cyfiawnder lleol.

Hoffwn fynegi fy niolch diffuant i bawb a ymgysylltodd â'r broses hon. Bu eich cyfraniadau'n amhrisiadwy. Yr wyf yn parhau'n ymrwymedig, ar ran yr Arglwyddes Brif Ustus, i sicrhau bod yr ynadaeth yn cael ei chefnogi'n briodol, yn cael ei harwain yn effeithiol ac mewn sefyllfa gadarn i ddiwallu anghenion y system gyfiawnder yn y blynyddoedd sydd i ddod.

**Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Ustus Nicholas Green**

Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr

# Cyflwyniad a manylion cyswllt

Mae'r ddogfen hon yn adroddiad ôl-ymgynghoriad ar y ddogfen ymgynghori: '*Diwygio Ardaloedd Cyfiawnder Lleol – Ymgynghoriad ar strwythurau gweinyddol yr ynadaeth yn y dyfodol*.' Mae'n cynnwys:

- Y cefndir i'r ymgynghoriad a'r adroddiad hwn, gan gynnwys crynodeb byr o gyfrifoldebau
- Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a'r prif themâu
- Dadansoddiad o'r ymatebion i bob cwestiwn, gan gynnwys crynodebau byr o'r cynigion, themâu sy'n codi'n aml a'n ymateb manwl
- Asesiadau o effaith, gan gynnwys cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg
- Y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad

Gellir cael copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r ddogfen ymgynghori drwy gysylltu â:

Magistrates Policy Team
Post Point 9.20
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

E-bost: ljaconsultation@justice.gov.uk gan ddefnyddio'r llinell pwnc 'CONSULTATION RESPONSE ENQUIRY – LOCAL JUSTICE AREA REFORMS'

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r adroddiad mewn fformat amgen drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Mae'r adroddiad hefyd ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

# Cefndir

Mae Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs) yn creu ffiniau daearyddol sy'n ymwneud â phedair prif elfen o weinyddiaeth llysoedd yr ynadon:

- Cychwyn a rhestru achosion;
- Talu a gorfodi cosbau (dirwyon, gorchmynion dedfryd ohiriedig, gorchmynion cymunedol a gorchmynion adsefydlu ieuenctid);
- Recriwtio ynadon; a
- Dyrannu ynadon.

Mae LJAs hefyd yn gysylltiedig â threfniadau arweinyddiaeth a hyfforddiant ynadon. Ar hyn o bryd mae 75 o LJAs, a elwir yn feinciau, ac mae pob un yn cynnwys rhwng un a phump o lysoedd ynadon. Caiff pob ynad ei neilltuo i LJA ar adeg eu penodi.

Bydd LJAs yn cael eu diddymu pan ddaw adran 45 o Ddeddf Adolygu Barnwrol a Llysoedd 2022 i rym. Bydd diddymu LJAs yn gwella'r ffordd y mae llysoedd ynadon yn gweithredu. Mae ffiniau cyfreithiol caeth LJAs wedi creu biwrocratiaeth ddiangen, gan gynnwys oedi wrth weinyddu cosbau a gorchmynion (lle mae gan droseddwyr sawl cosb mewn gwahanol rannau o'r wlad, neu pan fyddant yn newid cyfeiriad) ac anawsterau gweinyddol wrth drosglwyddo achosion ac ynadon rhwng LJAs.

Gan fod y Senedd eisoes wedi deddfu i ddiddymu LJAs, ni ailystyriodd yr ymgynghoriad y penderfyniad hwnnw. Yn hytrach, ei ddiben oedd ceisio barn ar sut y gallai grwpiau gweinyddol newydd weithredu'n ymarferol heb y ffiniau cyfreithiol anhyblyg sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd ag LJAs. Felly, canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar y ffordd orau o drefnu swyddogaethau hanfodol—megis recriwtio, dyrannu, arweinyddiaeth a hyfforddiant—o fewn fframwaith mwy hyblyg.

Ymgynghorwyd er mwyn sicrhau bod unrhyw drefniadau gweinyddol newydd yn gymesur, yn ymarferol, ac yn adlewyrchu'r realiti a wynebir gan ynadon ledled Cymru a Lloegr. Nid ein bwriad oedd gosod un model cenedlaethol na rhagnodi trefniadau unffurf. Yn hytrach, y nod oedd profi a allai dull symlach leihau baich gweinyddol tra'n parhau i gefnogi cyflawni cyfiawnder lleol.

Diben yr ymgynghoriad, felly, oedd deall effeithiau lleol, osgoi canlyniadau anfwriadol, a sicrhau bod dyluniad trefniadau'r dyfodol yn cydbwyso hyblygrwydd â'r angen i gynnal atebolrwydd lleol cadarn a chydlyniant meinciau.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ar 31 Mawrth a daeth i ben ar 23 Mehefin 2025.

Datblygwyd yr ymgynghoriad ar y cyd â'r Swyddfa Farnwrol a'r Coleg Barnwrol, gan gydnabod cwmpas cyfrifoldebau'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus o ran recriwtio, dyrannu, arweinyddiaeth a hyfforddiant.

Cafodd manylion pellach am y cynigion a'r meysydd cyfrifoldeb eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, sydd ar gael yma: https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas

## Sut y gwnaethom ymgynghori

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar GOV.UK ac ar Citizen Space. Derbyniwyd ymatebion drwy holiadur ar-lein a thrwy e-bost. Parhaodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos a dilynodd Egwyddorion Ymgynghori'r Llywodraeth:

https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Derbyniwyd cyfanswm o 1,428 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys 138 o ymatebion drwy e-bost ynghyd â 1,290 o ymatebion ar-lein. Dylid nodi nad atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad.

Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys ynadon (ar draws yr awdurdodaethau troseddol oedolion, ieuenctid a theulu), cadeiryddion meinciau, aelodau proffesiynol o'r farnwriaeth, rhanddeiliaid cyfreithiol, Cymdeithas yr Ynadon, Gweithrediaeth Arweinyddiaeth Ynadon (MLE), yn ogystal ag aelodau eraill o'r cyhoedd â budd.

Ystyriwyd pob ymateb yn ofalus er mwyn asesu effaith bosibl pob cynnig a'r lefel o gefnogaeth sydd ei angen fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Daeth yr un themâu i'r amlwg drwy gydol y broses ddadansoddi ac, lle bo'n briodol, mae'r themâu hyn wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

# Crynodeb o'r Ymatebion

1. Ceisiodd yr ymgynghoriad ar Ddiwygio Ardaloedd Cyfiawnder Lleol farn ar y strwythurau gweinyddol yng ngoleuni'r pwerau i ddiddymu LJAs, a gyflwynwyd gan Ddeddf Adolygu Barnwrol a Llysoedd 2022. Er mwyn eglurder, bwriad y meinciau gweinyddol arfaethedig oedd bod yn strwythur ymarferol yn unig ar gyfer trefnu recriwtio, dyrannu, neilltuo a hyfforddiant unwaith y byddai'r ffiniau statudol yn dod i ben. Ni fwriadwyd iddynt orfodi arferion unffurf na dull "un maint i bawb"; yn hytrach, eu diben oedd profi a allai symleiddio strwythurau leihau biwrocratiaeth tra'n cynnal hunaniaeth leol. Er ein bod wedi dod i'r casgliad nad oes ateb model cenedlaethol unigol, ac felly na fydd un yn cael ei weithredu, mae sail mewn rhai ardaloedd dros newidiadau lleol, a bydd y rhain yn cael eu datblygu ar lefel leol fel y bo'n briodol. Ni fwriadwyd y cynigion ychwaith i awgrymu disgwyliad o gynnydd mewn amseroedd teithio, ond yn hytrach i ffurfioli'r hyn sydd eisoes yn arfer cyfredol mewn sawl ardal.

2. Derbyniodd yr ymgynghoriad 1,428 o ymatebion gan ynadon ar draws awdurdodaethau, cadeiryddion meinciau, rhanddeiliaid cyfreithiol, Cymdeithas yr Ynadon fel cynrychiolwyr yr ynadon a'r MLE fel corff cynghorol, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd. Dangosodd yr ymatebion ymgysylltiad eang a mynegwyd safbwyntiau cryf ar draws pob pennod o'r ymgynghoriad.

## Themâu Cyffredinol

3. Mynegodd ymatebwyr bryderon cyson y byddai'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn gwanhau cyfiawnder lleol, yn cynyddu amseroedd teithio, neu'n effeithio ar recriwtio a chadw ynadon. Thema gref ar draws sawl pennod oedd na fyddai model "un maint i bawb" yn briodol, ac y dylai unrhyw newidiadau adlewyrchu amgylchiadau lleol.

## Strwythur Amgen ar gyfer Grwpio Llysoedd Ynadon

4. Cynigiodd yr ymgynghoriad ddisodli 75 o LJAs gyda 58 o feinciau, wedi'u halinio'n fras ag Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol (CJAs). Roedd pedair ar hugain o LJAs presennol eisoes yn cyd-fynd â ffiniau CJAs. Er i lawer o ymatebwyr gefnogi'r egwyddor o alinio ag CJAs, roedd pryderon ymarferol yn drech, gan gynnwys y gallai ardaloedd meinciau fynd yn rhy fawr i'w rheoli'n effeithiol, ac y gallai ardaloedd mwy o faint gynyddu'n sylweddol y disgwyliadau teithio ar ynadon gwirfoddol. Mynegodd ymatebwyr hefyd bryder ynghylch colli gwybodaeth leol, hunaniaeth leol a

chydlyniant bugeiliol, a mynegodd llawer bryder am effeithiau negyddol ar recriwtio a chadw.

5. Roedd y gefnogaeth gryfaf lle'r oedd y cynigion yn cadw ffiniau LJAs presennol; roedd y gwrthwynebiad cryfaf mewn ardaloedd a nodwyd ar gyfer uno. Ymhlith yr amgenion a awgrymwyd roedd modelau lleol mwy manwl, dulliau cenedlaethol heb ffiniau, uno ar lefel leol, neu ohirio newidiadau nes y byddai gwelliannau trafnidiaeth yn cael eu gwireddu; fodd bynnag, ni chafodd unrhyw fodel amgen gefnogaeth gonsensws cryf.

**Ein Ymateb**

6. O ystyried y pryderon a fynegwyd ynghylch ymarferoldeb a derbynioldeb y model ar sail CJAs, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r strwythur arfaethedig o 58 o feinciau. Yn hytrach, caiff y strwythurau meinciau gweinyddol eu mapio'n uniongyrchol ar sail yr LJAs, gan gadw 75 o ardaloedd meinciau. Mae'r dull hwn yn cydnabod y gefnogaeth fwyafrifol i'r ffiniau daearyddol presennol. Bydd y symudiad o ffiniau statudol i ffiniau gweinyddol yn golygu, pe bai cefnogaeth leol i newid yn y dyfodol—gan i bedair ar bymtheg o ardaloedd fynegi rhywfaint o barodrwydd i ystyried newid—y bydd yn bosibl cyflawni a chytuno ar hynny ar lefel leol.

## Recriwtio a Phwyllgorau Ymgynghorol

7. Yn gyffredinol, cytunodd ymatebwyr mai newidiadau lleiaf posibl yn unig a fyddai i brosesau recriwtio o ganlyniad i'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, daeth pryderon anuniongyrchol cryf i'r amlwg ynghylch y posibilrwydd y gallai ardaloedd daearyddol mwy atal darpar ynadon rhag ymgeisio, ac y gallai disgwyliadau teithio gael effaith anghymesur ar unigolion ag anableddau, cyfrifoldebau gofalu, incwm isel, neu fynediad cyfyngedig at drafnidiaeth.

8. Yng Nghymru, mynegwyd pryder y gallai'r diwygiadau effeithio ar gyfleoedd ynadon Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys.

9. Dadleuodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas yr Ynadon, o blaid diwygiadau cenedlaethol ehangach, gan gynnwys strategaeth recriwtio genedlaethol neu siarter wirfoddolwyr.

**Ein Ymateb**

10. Fel y nodwyd uchod, rydym yn cynnig cynnal y 75 o ffiniau presennol ar gyfer ein meinciau gweinyddol.

## Dyrannu

11. Cafodd y cynigion ynghylch dyrannu—megis neilltuo ynadon i brif lys a chaniatáu rhywfaint o eisteddiadu mewn lleoliadau eraill—eu cefnogi'n eang mewn egwyddor ond eu beirniadu o ran manylion. Canolbwyntiodd gwrthwynebiad cryf ar y terfyn arfaethedig o 90 munud ar gyfer amser teithio, a ystyrid yn ormodol; y disgwyliad arfaethedig o eistedd 60–80% yn y prif lys (a ystyrid gan lawer yn rhy isel); a'r effaith ar ymreolaeth ynadon gwirfoddol a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

**Ein Ymateb**

12. Bydd neilltuo i brif lys yn mynd rhagddo, ond gyda mwy o hyblygrwydd a phwyslais cliriach ar resymoldeb. O'r cychwyn cyntaf, nid oedd y cynigion yn rhagweld newid sylweddol i'r arfer presennol: sef bod ynadon yn eistedd y tu allan i'w prif llys yn unig mewn amgylchiadau cyfyngedig, ar sail anghenion busnes a buddiannau cyfiawnder, ac mewn cytundeb â'r ynad unigol (mewn ymgynghoriad â'u harweinwyr mainc). Rydym yn cydnabod bod y cynigion gwreiddiol yn agored i gamddehongli. O dan yr arfer presennol, mewn lleiafrif o achosion mae ynadon yn teithio ymhellach nag arfer i lys heblaw eu prif lys, ac ar hyn o bryd nid oes terfyn penodol ar y pellter y gallai fod gofyn iddynt ei deithio i wneud hynny.

13. Serch hynny, rydym wedi ystyried yr adborth a gafwyd. Efallai y bydd angen rhywfaint o eisteddiadau y tu allan i'r prif lys o hyd er mwyn diwallu anghenion rhestru'r llysoedd, ond bydd ceisiadau—yn ddarostyngedig i gytundeb yr ynad unigol—i eistedd y tu allan i'w brif lys a/neu eu mainc yn gyfyngedig, ac yn gofyn am gytundeb yr ynad unigol a chadeiryddion y fainc. Yn gyffredinol, ni ofynnir i ynadon deithio mwy na 60 munud mewn amgylchiadau o'r fath.

14. Gan y bydd ffiniau'r meinciau yn aros yn ddigyfnewid, dylid lliniaru'r rhan fwyaf o'r pryderon ynghylch teithio.

## Arweinyddiaeth Mainc

15. Cytunodd ymatebwyr fod Cadeiryddion Meinciau yn wynebu llwyth gwaith heriol, ond gwrthwynebodd y mwyafrif i rannu rôl y Cadeirydd yn swyddogaethau bugeiliol a busnes ar wahân. Roedd mwyafrif clir o blaid gwneud defnydd gwell o Ddirprwy Gadeiryddion Meinciau, gyda hyblygrwydd ar lefel leol.

**Ein Ymateb**

16. Ni fyddwn yn rhannu'r rôl arweinyddiaeth, ond byddwn yn annog defnydd gwell o Ddirprwy Gadeiryddion, yn darparu disgrifiadau rôl clir a fframwaith ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau, yn cryfhau cynefino a chymorth ar gyfer rolau arweinyddiaeth, ac yn cadw etholiadau fel y dull o ddewis arweinwyr lleol.

## Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau (TAAACs)

17. Tynnodd y cynnig i leihau nifer y TAAACs o 45 i 14 wrthwynebiad sylweddol, yn bennaf oherwydd pryderon ynghylch colli gwybodaeth leol, maint pwyllgorau a fyddai'n anodd eu rheoli, a llai o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad ystyrlon. Mynegodd ymatebwyr amheuaeth ynghylch pa mor ymarferol fyddai TAAACs rhanbarthol mawr, a phwysleisiodd yr angen am gynefindra lleol mewn mentora a gwerthusiadau.

**Ein Ymateb**

18. Ni fyddwn yn gorfodi gostyngiad i 14 o TAAACs. Yn hytrach, gall rhanbarthau archwilio rhesymoli ar sail wirfoddol lle bo hynny'n briodol yn lleol. Bydd Partneriaid Dysgu'r Coleg Barnwrol yn dod yn aelodau statudol o'r TAAACs, gan adlewyrchu eu rôl ganolog mewn hyfforddiant.

## Effeithiau ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

19. Mynegodd ymatebwyr bryder y gallai ardaloedd estynedig a disgwyliadau teithio gael effaith anghymesur ar grwpiau gwarchodedig. O ganlyniad i'r penderfyniad i gadw'r ffiniau presennol a'r newidiadau sy'n ymwneud ag amseroedd teithio, dylai'r effeithiau hyn gael eu lleihau i'r eithaf. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith llawn ar y Gymraeg ar wahân ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Gan nad ydym yn newid y ffiniau gweinyddol, nid ydym yn rhagweld y bydd effeithiau negyddol. Rydym yn cydnabod bod ymatebwyr wedi mynegi pryderon cryf ynghylch effaith bosibl y cynigion ar ddefnydd y Gymraeg. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, rydym wedi cynnal a chyhoeddi Asesiad Effaith llawn ar y Gymraeg ochr yn ochr â'r adroddiad ymgynghori hwn, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod y cynigion terfynol yn adlewyrchu ac yn ymateb yn llawn i'r pryderon hynny.

20. Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at bryderon y gallai rhai cynigion arwain at fodel "un maint i bawb" neu gynyddu amseroedd teithio, gyda goblygiadau posibl i grwpiau gwarchodedig ac ynadon Cymraeg. Nid dyna oedd bwriad y cynigion, ond rydym yn cydnabod yr adborth a gafwyd. Drwy gadw'r ffiniau presennol a pheidio â bwrw ymlaen â'r elfennau teithio, caiff llawer o'r effeithiau posibl ar gydraddoldeb a'r Gymraeg a nodwyd gan ymatebwyr eu hosgoi. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i drefniadau cymesur sy'n diogelu hygyrchedd lleol, yn cefnogi amrywiaeth, ac yn cynnal ein rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg.

# Dadansoddiad o Ymatebion i Gwestiynau Unigol

## Pennod 1: Beth yw Ardaloedd Cyfiawnder Lleol a pham eu bod yn cael eu diddymu?

21. Nododd Pennod 1 o'r ymgynghoriad y rhesymeg dros ddiddymu Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs). Ni chynhwysai unrhyw gynigion penodol, ond gofynnodd a oedd yr ymgynghoriad wedi nodi'n gywir yr agweddau ar system yr ynadon sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ddiddymu LJAs, ac a fyddai unrhyw feysydd eraill yn cael eu heffeithio.

**C1:** A ydych yn cytuno mai'r agweddau ehangach ar system yr ynadon sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ddiddymu LJAs yw: recriwtio; dyrannu; arweinyddiaeth; a hyfforddiant? Os ydych o'r farn y bydd meysydd eraill yn cael eu heffeithio, rhestrwch y rhain.

22. O ran yr ymatebion amlddewis, ymatebodd 1,088 "Ydw", 136 "Nac ydw", a 62 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r holl 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 76% "Ydw", 10% "Nac ydw", a 4% "Ddim yn gwybod", gyda 142 o ymatebion naill ai heb eu hateb (8%) neu heb eu pennu (2%). Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 600 o ymatebwyr.

23. Amlygodd y sylwadau testun rhydd ystod o bryderon ehangach ynghylch ffactorau a allai gael eu heffeithio gan y cynigion. Cododd ymatebwyr effaith bosibl ar recriwtio a chadw, morâl ynadon a diwylliant meinciau, ac egwyddor cyfiawnder lleol. Nododd nifer fechan o ymatebwyr hefyd oblygiadau posibl ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn rhai llysoedd yng Nghymru.

**Ein Ymateb (C1)**

24. Rydym yn cydnabod y canlyniadau ychwanegol i'r diwygiadau a godwyd gan ymatebwyr i gwestiwn 1, ac rydym wedi eu hystyried wrth ddatblygu ein ymateb.

# Pennod 2: Strwythur gweinyddol amgen ar gyfer grwpio llysoedd ynadon

25. Cynigiodd Pennod 2 o'r ymgynghoriad ddisodli'r 75 o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs) presennol â system newydd o 58 o "feinciau". Byddai'r meinciau hyn yn cael eu diffinio at ddibenion gweinyddol yn unig, yn wahanol i LJAs sydd wedi'u diffinio gan ddeddfwriaeth. Cynigiwyd y term "meinciau" i ddisgrifio'r system newydd gan ei fod yn derm cyfarwydd i ynadon.

26. Cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai'r meinciau hyn yn alinio'n fras ag Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol, ac eithrio mewn achosion lle byddai'r CJAs yn rhy fawr. Yn yr achosion hynny, defnyddid ffiniau'r LJAs presennol. Gan fod 24 o LJAs yr un fath ag CJAs, ni fyddai newid i'r ffiniau yn yr achosion hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion eraill lle cynigiwyd defnyddio CJAs, byddai hyn yn golygu uno dau neu ragor o grwpiau llysoedd LJA.

27. Rôl y meinciau fyddai creu ardal ddaearyddol at ddibenion gweinyddu arweinyddiaeth a dyrannu. Nid yw'r swyddogaethau hyn yn cyflwyno unrhyw gyfrifoldebau newydd.

**C2:** A ydych yn cytuno y dylid grwpio llysoedd ynadon yn feinciau a fyddai naill ai'n: cyd-fynd ag Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol (CJAs); neu'n defnyddio ffiniau'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs) presennol, lle mae'r LJA yn rhy fawr i weithredu fel un fainc?

28. O ran yr ymatebion amlddewis, ymatebodd 654 "Ydw", 484 "Nac ydw" a 145 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 46% "Ydw", 34% "Nac ydw" a 10% "Ddim yn gwybod", gyda 145 o ymatebion naill ai heb eu hateb (9%) neu heb eu pennu (1%). Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 780 o ymatebwyr.

29. Cynigiwyd defnyddio CJAs fel man cychwyn gan eu bod eisoes yn darparu ôl-troed gweinyddol sefydledig a rennir gan sawl partner cyfiawnder, gan gynnig sail ymarferol ar gyfer grwpio llysoedd lle bo'n briodol.

30. Er i lawer o ymatebwyr gytuno â'r egwyddor o ddefnyddio CJAs i grwpio llysoedd ynadon yn feinciau, daeth thema gref i'r amlwg yn y sylwadau testun rhydd (a ailadroddwyd drwy gydol yr ymateb i'r ymgynghoriad) sef y byddai'r meinciau arfaethedig yn rhy fawr. Yn benodol, roedd ymatebwyr yn pryderu y byddai'r ardaloedd estynedig yn arwain at gynnydd mewn amseroedd teithio, colli cyfiawnder lleol drwy wanhau gwybodaeth leol, ac na fyddai cynnydd ym maint y meinciau yn ymarferol o safbwynt gweinyddol.

> "Byddai unrhyw uno LJAs i ffurfio CJAs newydd, mwy o faint, o bosibl yn gosod gofynion teithio uwch ar ynadon sy'n eistedd ac, felly, gallai leihau'r nifer y gallwn eu cadw." – Ynad Heddwch (LJA heb ei nodi)

31. Er i rai ymatebion gefnogi'r egwyddor o alinio llysoedd ynadon yn fras ag CJAs, amodwyd y gefnogaeth honno gan ddweud y dylid teilwra'r dull o gytuno ar ffiniau meinciau i amgylchiadau LJAs unigol.

**C3:** A ydych yn cytuno â'r 58 o feinciau arfaethedig a nodir yn Atodiad B?

32. O ran yr ymatebion amlddewis, ymatebodd 377 "Ydw", 624 "Nac ydw" a 278 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 26% "Ydw", 44% "Nac ydw" a 20% "Ddim yn gwybod", gyda 149 o ymatebion naill ai heb eu hateb (10%) neu heb eu pennu (1%). Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 924 o ymatebwyr.

33. Roedd y gefnogaeth gryfaf i'r meinciau arfaethedig lle'r oedd y ffiniau'n cyd-fynd ag LJAs presennol (24 o feinciau). Nododd ymatebwyr yn yr ardaloedd hyn yn aml y byddai "ychydig iawn neu ddim newid", er i lawer gymhwyso eu cefnogaeth drwy nodi na allent wneud sylwadau ar drefniadau mewn mannau eraill.

34. Roedd y gwrthwynebiad cryfaf lle cynigiwyd uno, yn enwedig lle byddai'r fainc newydd yn cwmpasu ardaloedd daearyddol mawr neu ardaloedd a ystyrid yn rhai â chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Ymhlith y prif bryderon roedd: maint y fainc yn gwneud gweinyddu a chynllunio rota yn anodd ei reoli; amseroedd teithio hirach i ynadon; gwanhau gwybodaeth leol; tanseilio cyfiawnder lleol; ac effaith ar hunaniaeth gymunedol a bugeiliol.

35. Thema ailadroddus oedd na fyddai model "un maint i bawb" yn gweithio; gallai cynnig sy'n addas i un ardal fod yn amhriodol i ardal arall. Pwysleisiodd llawer y dylai unrhyw uno lleol fynd rhagddo dim ond gyda ymgysylltiad a chefnogaeth leol—safbwynt a adleisiwyd gan Weithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadaeth a Chymdeithas yr Ynadon.

36. Cynigiodd rhai ymatebwyr fodelau amgen, gan gynnwys strwythurau mwy manwl; systemau cenedlaethol heb ffiniau; uno pellach penodol i ardaloedd (gyda safbwyntiau cymysg yn Swydd Derby); gohirio uno nes gwella cysylltiadau trafnidiaeth; a defnyddio llwyth achosion neu is-strwythurau i lywio dyrannu. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw ddull amgen gefnogaeth gonsensws cryf.

> "Dylai Caerdydd aros yn fainc ar wahân neu ffurfio mainc lai, fwy hylaw gyda'r ardaloedd cyfagos uniongyrchol... Byddai hyn yn lleihau amser teithio, yn

> cefnogi cyfiawnder lleol, ac yn cynnal parhad..."
> – Ynad Heddwch (LJA heb ei nodi)
>
> "Byddai mainc Gorllewin Mercia a fyddai'n cynnwys y meinciau presennol yn Swydd Gaerwrangon a Swydd Henffordd yn hylaw. Ond byddai un a fyddai'n cynnwys Swydd Amwythig hefyd yn anymarferol."
> – Ynad Heddwch Swydd Gaerwrangon
>
> "Byddwn yn cynnig y gellid cyfuno Swydd Gaer a Glannau Mersi, sy'n adlewyrchu'r realiti bod nifer fawr o'r ynadon hyn eisoes yn gweithio'n gyfnewidiol rhwng y ddwy ardal, yn enwedig yn y maes teulu."
> – Ynad Heddwch (LJA heb ei nodi)

**C4:** A ydych yn credu y byddai unrhyw un o'r cynigion a nodir yn y papur hwn yn effeithio ar systemau'r llysoedd teulu neu ieuenctid mewn ffyrdd heblaw'r rhai a nodwyd?

37. O ran yr ymatebion amlddewis, ymatebodd 405 "Ydw", 201 "Nac ydw" a 635 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 28% "Ydw", 14% "Nac ydw" a 45% "Ddim yn gwybod", gyda 186 o ymatebion naill ai heb eu hateb (12%) neu heb eu pennu (1%). Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 678 o ymatebwyr.

38. Nododd llawer o ymatebwyr nad oedd ganddynt brofiad o lysoedd ieuenctid na theulu, a chyfeiriasant at hyn fel rheswm dros ansicrwydd neu anallu i ateb y cwestiwn.

39. Rhannodd y rhai â phrofiad o lysoedd teulu neu ieuenctid bryderon tebyg i ynadon nad ydynt yn arbenigwyr. Unwaith eto, mynegwyd amheuon gan ymatebwyr yr effeithiwyd ar eu LJA eu hunain neu lle cynigiwyd uno.

40. Roedd themâu ailadroddus yn cynnwys effaith ardaloedd meinciau mwy ar amseroedd teithio; gwanhau gwybodaeth leol gan arwain at effaith ar gyfiawnder lleol—ac ystyrid hyn yn arbennig o berthnasol i achosion cymhleth a adolygir mewn llysoedd teulu ac ieuenctid; a'r posibilrwydd o darfu ar berthnasoedd gwaith sefydledig.

41. Nodwyd hefyd nifer o faterion penodol i lysoedd ieuenctid a theulu: Mynegodd rhai ymatebwyr â phrofiad yn y meysydd hyn bryder ynghylch sut y gallai amseroedd teithio estynedig a maint meinciau mwy effeithio ar ddefnyddwyr llys sy'n arbennig o agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n debygol o ddibynnu ar oedolion ar gyfer trafnidiaeth ac felly â symudedd cyfyngedig. Cododd eraill y risg o lai o barhad mewn achosion cymhleth; y posibilrwydd y gallai strwythurau amlasiantaethol lleol (e.e.

CAFCASS, Timau Troseddwyr Ifanc) beidio â chyd-fynd â meinciau mwy; ac anhawster ffitio patrymau eisteddiadau teulu/ieuenctid i fodel dyrannu “cartref ac i ffwrdd”.

> “Mae achosion teulu ac ieuenctid yn dibynnu ar wybodaeth leol gadarn a chysylltiad agos â gwasanaethau lleol—gallai maint meinciau mwy danseilio hyn.” – Ynad Heddwch (Teulu/ Ieuenctid)

42. Nododd lleiafrif y gallai hyblygrwydd helpu rhai llysoedd â llwyth gwaith uchel a lleihau'r risg y byddai prosesau llys ieuenctid yn cael eu hynysu, ond nid hwn oedd y farn drechaf.

**Ein Ymateb (C2–C4)**

43. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth eang i'r egwyddor o alinio meinciau ag CJAs, ac rydym yn ddiolchgar i ymatebwyr am yr adborth ystyriol a ddarparwyd.

44. Rydym yn cydnabod y pryderon sylweddol a godwyd ynghylch goblygiadau ymarferol uno ffiniau neu greu ardaloedd meinciau mwy o faint. Er bod ein cynigion gwreiddiol yn ceisio cymhwyso model gweinyddol cymesur ac ymarferol, rydym yn deall bod y posibilrwydd o gyfuno ardaloedd presennol wedi arwain at bryderon ynghylch teithio, hunaniaeth leol a'r gallu i reoli.

45. Dengys tystiolaeth yr ymgynghoriad fod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn fodlon ar ffiniau LJAs presennol. Yn y nifer lai o ardaloedd lle roedd ymatebwyr yn agored i newid, pwysleisiwyd nad yw un model yn addas i bob rhan o'r wlad ac y dylid osgoi dull “un maint i bawb”. Pwysleisiodd llawer hefyd bwysigrwydd ymgysylltu â meinciau lleol cyn gwneud unrhyw newidiadau. Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth hwn, ac mewn ymateb rydym yn cynnig cadw'r ffiniau daearyddol presennol a mapio'r strwythur Meinciau newydd yn uniongyrchol ar sail yr LJAs presennol, gan arwain at gyfanswm o 75 o Feinciau.

46. Nodwn hefyd fod rhywfaint o barodrwydd mewn 19 o ardaloedd i adolygu ffiniau yn y dyfodol, ar yr amod bod unrhyw ystyriaeth o newid yn cael ei chynnal ar y cyd ac â chefnogaeth leol glir. Gyda ffiniau gweinyddol yn eu lle, gellir archwilio a chytuno ar unrhyw addasiadau yn y dyfodol yn lleol drwy strwythurau llywodraethu lleol lle mae angen a chefnogaeth glir, heb fod angen ailstrwythuro cenedlaethol pellach.

## Pennod 3: Recriwtio a Phwyllgorau Ymgynghorol

47. Awgrymodd Pennod 3 o'r ymgynghoriad mai newidiadau lleiaf posibl fyddai i recriwtio, gan y byddai ynadon yn parhau i ymgeisio am swyddi gwag yn eu hardal

lleol neu eu mainc, yn cael eu penodi'n genedlaethol ond yn cael eu neilltuo i'r fainc y gwnaethant ymgeisio iddi, ac o fewn hynny i "brif lys".

48. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i swyddogaeth y 23 o Bwyllgorau Ymgynghorol recriwtio (ACs) na'r trefniant llysoedd y maent yn eu goruchwylio ar hyn o bryd. Bydd ynadon ieuenctid yn parhau i gael eu penodi gan y Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau (TAAACs) yn dilyn hyfforddiant pellach. Bydd ynadon teulu yn parhau i ymgeisio am y rôl hon drwy broses recriwtio ar wahân neu'n ynadon troseddol a benodir gan y TAAACs yn dilyn hyfforddiant pellach.

**C5**
**i:** A ydych yn cytuno mai dim ond newidiadau bychain fyddai eu hangen i broses recriwtio'r ynadon o ganlyniad i ddiddymu LJAs, lle byddai swyddi gwag a neilltuadau yn cael eu trefnu gan fainc yn hytrach nag LJA?

49. O ran yr ymatebion amlddewis, ymatebodd 594 "Ydw", 402 "Nac ydw" a 277 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 42% "Ydw", 28% "Nac ydw" a 19% "Ddim yn gwybod", gyda 10% heb eu hateb a 1% (154 o ymatebion) heb eu pennu. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 954 o ymatebwyr i o leiaf un o C5(i) neu C5(ii).

**ii:** A ydych yn credu bod effeithiau pellach tebygol ar y system recriwtio nad ydym wedi'u hystyried?

50. O ran yr ymatebion amlddewis, ymatebodd 675 "Ydw", 192 "Nac ydw" a 378 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 47% "Ydw", 14% "Nac ydw" a 27% "Ddim yn gwybod", gyda 11% heb eu hateb a 1% (182 o ymatebion) heb eu pennu. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 954 o ymatebwyr i o leiaf un o C5(i) neu C5(ii).

51. Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr na fyddai'r prosesau recriwtio eu hunain yn newid yn uniongyrchol o ganlyniad i'r cynigion. Fodd bynnag, teimlai llawer y gallai'r diwygiadau effeithio'n anuniongyrchol ar y gallu i recriwtio ynadon newydd—yn enwedig oherwydd y gallai ardaloedd Meinciau mwy wneud y rôl yn llai deniadol oherwydd amseroedd teithio hirach, llai o leoliaeth (sy'n gymhelliant allweddol i ymgeiswyr), neu oherwydd y gallai ymgeiswyr gael eu hatal gan y cynnig i godio arferion dyrannu presennol (fel y cynigiwyd ym Mhennod 3 o'r ymgynghoriad).

"Bydd gennym argyfwng recriwtio os bydd ynadon yn canfod yn sydyn bod yn rhaid iddynt symud i lysoedd pell. Mae'r ynadaeth yn ymwneud â chyfiawnder lleol – gadewch i ni ei gadw felly." – Ynad Heddwch Swydd Rydychen

52. Cododd ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch effeithiau negyddol ar gydraddoldeb, gan nodi y gallai cynnydd mewn teithio neu newidiadau i ddyrannu fod yn rhwystr i ynadon neu ymgeiswyr â nodweddion gwarchodedig. Amlygwyd effeithiau posibl ar unigolion ag anableddau corfforol neu broblemau symudedd, pobl â chyfrifoldebau gofalu, a grwpiau oedran gwahanol—er enghraifft, ynadon hŷn a allai gael trafferth gyda theithiau hirach, ac ynadon iau sy'n cydbwyso'r rôl â chyflogaeth neu ymrwymiadau eraill. Yn ogystal â nodweddion gwarchodedig, teimlai ymatebwyr y gallai'r cynigion effeithio ar bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is (megis y rhai heb fynediad at gar ac yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus) a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

53. Yng Nghymru, mynegodd ymatebwyr bryderon cryf a dwys ynghylch effaith bosibl y cynigion ar ynadon Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd â chrynodiad uwch o siaradwyr Cymraeg. Pwysleisiasant pe bai'n ofynnol i ynadon Cymraeg deithio ymhellach neu eistedd mewn lleoliadau amgen, y gallai hynny leihau eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys. Byddai hyn yn effeithio ar allu ynadon i eistedd mewn achosion lle defnyddir y Gymraeg ac ar y gallu i ddarparu ynadon Cymraeg ar gyfer defnyddwyr llys sy'n mynnu bod yr achos yn cael ei gynnal yn Gymraeg—hawl statudol i holl ddefnyddwyr llysoedd yng Nghymru.

54. Cododd nifer o ymatebwyr bryderon difrifol hefyd nad oedd asesiad o effaith bosibl ar y Gymraeg wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Rydym yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gwbl ymrwymedig i asesu effaith unrhyw gynigion terfynol ar y Gymraeg yn unol â'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Chynllun Iaith Gymraeg 2018 y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn unol â hynny, mae Asesiad Effaith llawn ar y Gymraeg wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn, ac mae ar gael yma: https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas

55. Cyhoeddwyd datganiad cydraddoldeb ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, ac rydym wedi cyhoeddi asesiad effaith ar gydraddoldeb ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

56. Teimlai rhai ymatebwyr hefyd y gallai meinciau mwy wneud recriwtio'n fwy amhersonol, gan effeithio ar gynefino lleol a chynyddu'r pwysau ar ynadon ac aelodau lleyg sy'n ymwneud â recriwtio oherwydd nifer bosibl yr ymgeiswyr.

57. Fodd bynnag, cydnabu nifer o ymatebwyr y gallai trefniadau eisteddiadau mwy hyblyg annog ceisiadau neu helpu i lenwi swyddi gwag, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n byw ger ffiniau LJAs neu gylchoedd presennol.

58. Awgrymodd llawer o ymatebwyr hefyd fod angen diwygiadau ehangach i'r broses recriwtio. Er nad oedd hyn o fewn cwmpas yr ymgynghoriad, teimlent y dylid ystyried y materion hyn fel rhan o ddiwygiadau ehangach i'r ynadaeth.

> "Nid yw'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag ystyriaethau ehangach ac mae'n gyfle a gollwyd i ystyried beth ddylid ei wneud yn genedlaethol i gryfhau a datblygu recriwtio."– Ynad Heddwch Caerdydd

59. Un awgrym—gan Gymdeithas yr Ynadon ac a gefnogwyd gan rai ymatebwyr—oedd cyflwyno "Siarter Wirfoddolwyr yr Ynadon" i nodi disgwyliadau'r rôl ar gyfer ymgeiswyr. Galwodd y Gymdeithas hefyd am strategaeth recriwtio a chadw genedlaethol, wedi'i chefnogi gan fodelu cadarn, hirdymor o'r nifer o ynadon sydd eu hangen ar lefel llys, gan bwysleisio'r egwyddor "dylunio'n genedlaethol, gweithredu'n lleol". Er nad oedd hyn o fewn cwmpas yr ymgynghoriad, mynegodd nifer fechan o ymatebwyr gefnogaeth i'r cynnig hwn.

**Ein Ymateb (C5)**

60. Roedd consensws na fyddai'r prosesau recriwtio eu hunain yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion. Er nad oedd bwriad yr ymgynghoriad i gyflwyno cynnydd mewn amseroedd teithio, rydym yn cydnabod yr adborth clir y gallai ein gallu i recriwtio'n llwyddiannus gael ei effeithio pe bai ymgeiswyr yn wynebu amseroedd teithio hirach i'r llys.

61. Rydym yn cymryd o ddifrif y pryderon a godwyd ynghylch effeithiau posibl ardaloedd meinciau mwy ar ynadon â nodweddion gwarchodedig, ar y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, ac ar hawliau statudol siaradwyr Cymraeg.

62. Fel y nodwyd ym Mhennod 2, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â meinciau mwy o faint.

## Pennod 4: Dyrannu

63. Amlinellodd Pennod 4 o'r ymgynghoriad y trefniadau presennol ar gyfer dyrannu ynadon i Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs) a chynigiodd rai newidiadau i'r broses. Bwriad y cynigion oedd adlewyrchu'r arfer presennol yn agos, tra'n ddigon hyblyg i gefnogi anghenion y llys ac anghenion yr ynadon.

64. Roedd y cynigion yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai ffiniau LJAs yn newid, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y papur ymgynghori. Gan nad yw hyn bellach yn wir, mae rhai o'r cynigion bellach yn ddiangen. Trafodir hyn yn fanylach isod.

65. Ymdriniwyd â chwe phwnc eang mewn perthynas â dyrannu:
    a. Neilltuo ynadon i "brif lys" (Cwestiynau 6, 12, 13, 14)

b. Eistedd y tu allan i brif lys neu fainc (Cwestiynau 7, 9)
c. Disgwyliadau teithio (Cwestiwn 8)
d. Dyrannu ynadon teulu (Cwestiynau 10, 11a, 11b, 12)
e. Dyrannu ynadon ieuenctid (Cwestiwn 13)
f. Effaith ar nodweddion gwarchodedig (Cwestiwn 15)

66. **Nodyn:** Gofynnodd y rhan fwyaf o gwestiynau ym Mhennod 4 am sawl agwedd, felly nid yw o reidrwydd yn glir at ba agwedd yr oedd ymatebwyr yn cyfeirio wrth nodi "Ydw" neu "Nac ydw" (er enghraifft, Cwestiwn 6: "A ydych yn cytuno y dylid neilltuo ynadon i 'brif lys', lle disgwylir iddynt dreulio rhwng 60% ac 80% o'u heisteddiadau?"—gallai ymatebwyr gytuno mewn egwyddor â neilltuo i brif lys ond wrthod y ganran). Dylid felly darllen yr ystadegau "Ydw/Nac ydw" a adroddir isod ochr yn ochr â'r crynodeb o'r ymatebion testun rhydd ar gyfer pob cwestiwn.

**C6:** A ydych yn cytuno y dylid neilltuo ynadon i "brif lys", lle disgwlir iddynt dreulio rhwng 60% ac 80% o'u heisteddiadau yno?

165. Pwysleisiodd rhai ymatebion yr angen am wneud penderfyniadau lleol ar faterion lleol. Mae hyn yn cyd-fynd ag un o egwyddorion allweddol adolygiad yr Uwch Farnwr Llywyddol o drefniadau llywodraethu; er y bydd yn bwysig sicrhau cysondeb a rhannu arfer da, dylid, lle bo'n bosibl, gwneud penderfyniadau mor agos at y gweithrediad ag y bo modd, ac osgoi canoli gormodol. Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad Llywodraethu yn mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch llywodraethu lleol a strwythurau gwneud penderfyniadau.

**C25:** A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ynghylch y cynigion arweinyddiaeth yn y bennod hon mewn perthynas â'r systemau ieuenctid neu deulu?

166. Nid oedd elfen amlddewis i C25. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 160 o ymatebwyr.

167. Mynegodd llawer o ymatebion gefnogaeth i'r system bresennol. Ailadroddodd rhai sylwadau ffafriaeth dros arweinwyr etholedig; galwodd eraill am fwy o adnoddau, cymorth a hyfforddiant; a phwysleisiodd eraill bwysigrwydd cydnabod anghenion unigryw awdurdodaethol a daearyddol.

**Ein Ymateb (C25)**

168. Ni chynigiodd yr ymgynghoriad unrhyw newidiadau i rolau Cadeiryddion Panel Teulu a Ieuenctid, heblaw ystyried a ddylai'r rolau hynny gael eu hethol neu eu dewis (a drafodwyd yn ein ymateb i C22 a C23 uchod). Gan fod mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn mynegi cefnogaeth i'r system bresennol, nid ydym o'r farn bod angen unrhyw newidiadau pellach.

# Pennod 6: Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau (TAAACs)

169. Nododd yr ymgynghoriad fod 45 o TAAACs ledled Cymru a Lloegr yn ormod ar gyfer gweithrediad effeithiol. Gofynnwyd a ellid lleihau'r nifer i un TAAAC troseddol ac un

TAAAC teulu fesul rhanbarth a Chymru, gan atgynhyrchu'r strwythur presennol yn Llundain. Awgrymwyd y byddai lleihau nifer y TAAACs yn darparu mwy o gysondeb ar draws pob rhanbarth. Byddai aelodau'n cael eu tynnu o'r meinciau sy'n eistedd o fewn y cylchdaith hwnnw.

170. Mae rhai agweddau ar waith y TAAACs eisoes yn gweithredu ar lefel cylchdaith, felly dylai ffurfio TAAACs ar sail cylchdaith weithio'n dda ac annog rhannu arfer gorau ac adnoddau ar draws ffiniau daearyddol.

171. Byddai hyn yn lleihau nifer aelodau TAAAC mewn cylchdaith, ond byddem yn sicrhau bod pob mainc yn cael ei chynrychioli'n briodol.

172. Gall pwyllgorau â nifer fawr o aelodau fod yn anodd eu rheoli, felly gallai strwythur is-bwyllgor ganiatáu i faterion penodol sy'n effeithio ar y gylchdaith gyfan a gynrychiolir gael eu hystyried gan nifer lai o ynadon.

**C26:** A ydych yn cytuno y dylid lleihau'r 45 o TAAACs i 14, gydag un JTAAAC ac un FTAAAC ar gyfer pob un o'r saith cylchdaith barnwrol a Llundain?

**C27:** A oes gennych syniadau ynghylch sut y gellid strwythuro TAAACs mwy drwy ddefnyddio is-bwyllgorau, grwpiau gwaith neu fecanweithiau eraill? Beth y byddai'r is-strwythurau hynny'n eu cynnwys fel arfer? Rhowch wybod i ni eich syniadau.

173. O ran yr ymatebion amlddewis i C26, ymatebodd 237 "Ydw", 652 "Nac ydw" a 388 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 17% "Ydw", 46% "Nac ydw" a 27% "Ddim yn gwybod", gyda 151 o ymatebion naill ai heb eu hateb (10%) neu heb eu pennu (1%).

174. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 881 o ymatebwyr i C26, a 673 i C27.

175. Drwy gydol Pennod 6, nododd llawer o'r rhai a ymatebodd "Ddim yn gwybod" nad oedd ganddynt farn gan nad oeddent yn gyfarwydd â TAAACs neu eu bod yn newydd i'r ynadaeth.

176. Ymhlith y rhai a ymatebodd, roedd y mwyafrif o'r pryderon a nodwyd yn y sylwadau testun rhydd yn ymwneud â cholli cyfiawnder lleol ac anhawster gweinyddol rheoli TAAACs mor fawr. Roedd themâu cyffredin yn cynnwys: colli cydweithrediad lleol ymhlith ynadon a llai o gyfleoedd ar gyfer gweithredu wyneb yn wyneb; gwanhau gwybodaeth a chysylltiadau lleol; y nifer fawr o ynadon y byddai'n rhaid i TAAAC ei reoli o'i gymharu â nifer fach o staff arweinyddiaeth; a'r cynnydd yn y llwyth gwaith i aelodau TAAAC (yn enwedig mewn perthynas â mentora a gwerthusiadau).

> "Byddai uno i mewn i un TAAAC rhanbarthol mawr yn arwain at golli gwybodaeth leol am ynadon o fewn yr LJAs. Mae eisoes yn anodd sicrhau adnoddau ar gyfer TAAACs, a byddai un sy'n bedair gwaith yn fwy yn wynebu llwyth gwaith ychwanegol sylweddol… Mae TAAACs gweithio orau pan maent yn lleol ac yn meddu ar wybodaeth leol am yr ynadon y maent yn eu gwasanaethu. Mae gwerthuso a mentora yn dibynnu ar berthnasoedd agos a chynefindra â'r ffordd y mae pob llys a mainc yn gweithredu. Byddai dileu'r cysylltiadau hyn yn troi'r rhain yn brosesau pell ac yn eu gwneud yn anos denu a chadw aelodau TAAAC." – Ynadon Heddwch Nottingham

> "Byddai TAAAC sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr yn rhy anodd ei reoli ac yn arafu prosesau. Byddai rhoi adborth, cymorth a chyngor i ynadon yn mynd yn rhy amhersonol. Byddai'n rhaid cynnal cyfarfodydd ar-lein, ac mae manteision sylweddol i gyfarfodydd wyneb yn wyneb, o leiaf ar rai achlysuron."
> – Ynad Heddwch (LJA heb ei nodi)

177. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai lleihau nifer y TAAACs yn gwaethygu problemau presennol. Nododd rhai hefyd nad oeddent yn gweld rhesymeg argyhoeddiadol dros leihau nifer y TAAACs.

178. Roedd 126 o ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnydd canfyddedig yn y llwyth gwaith yn atal ynadon rhag ymgeisio am rolau TAAAC, ar adeg pan fo eisoes yn anodd dod o hyd i wirfoddolwyr. Awgrymodd nifer hefyd fod gwirfoddolwyr yn cael eu cymell gan wasanaethu eu cymuned leol, ac felly pe bai'r cysylltiad lleol yn cael ei wanhau, byddai ynadon yn llai tebygol o ymgeisio am rolau TAAAC.

> "Byddai TAAACs mawr iawn yn heriol i'w rheoli o safbwynt y cadeirydd ac yn atal ynadon rhag cyflwyno eu hunain i ymgymryd â'r llwyth gwaith cynyddol, boed fel aelodau pwyllgor neu fel cadeirydd. Yn yr un modd ag y mae Cadeirydd y Fainc yn ffigwr pwysig i ynadon, mae'n bwysig bod cadeirydd y TAAAC yn unigolyn adnabyddus yn yr ardal."
> – Ynadon Heddwch Swydd Gaerloyw

179. Roedd rhai ymatebwyr yn benodol yn gwrthwynebu lleihau nifer y TAAACs i 14, gan ddweud bod hyn yn rhy ychydig neu y byddai'n cwmpasu ardal ddaearyddol rhy fawr. Roedd eraill yn pryderu y byddai'r TAAACs mwy arfaethedig yn rhy anghysbell ac yn "ddi-wyneb" i ymgysylltu'n ystyrlon ag ardaloedd lleol. Teimlai eraill fod hyn eisoes yn broblem bresennol a fyddai'n cael ei gwaethygu ymhellach.

180. Cyfeiriodd nifer o ymatebion at y ffaith na ellir mabwysiadu dull "un maint i bawb" ar gyfer ad-drefnu TAAACs, ac er y gallai'r system arfaethedig weithio yn Llundain (lle mae eisoes ar waith), ni fyddai'n gweithio ym mhobman, yn enwedig lle mae ynadon yn fwy gwasgaredig ac yn methu dibynnu ar system drafnidiaeth gyhoeddus helaeth.

181. Mynegodd Cymdeithas yr Ynadon bryderon ynghylch maint y TAAACs arfaethedig a cholli lleoldeb, gan awgrymu y dylai TAAACs gael adolygiad annibynnol ar wahân i'r ymgynghoriad hwn. Roedd Gweithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadaeth o blaid lleihau nifer y TAAACs, ond ar sail cael tua 2,000 o ynadon fesul TAAAC yn hytrach na dwy TAAAC fesul rhanbarth a Chymru.

182. Ymhlith y rhai a oedd o blaid y cynnig, nododd rhai y byddai cysondeb ac effeithlonrwydd cynyddol ar draws ardaloedd yn fanteision, ac roedd nifer fechan o'r farn y byddai recriwtio i rolau TAAAC yn haws oherwydd y byddai cronfa fwy o ymgeiswyr ar gael.

183. Er gwaethaf y gwrthwynebiad sylweddol i leihau nifer y TAAACs i 14, gallai llawer o ymatebwyr weld manteision lleihau nifer y TAAACs i ryw raddau.

> "Mae hyn yn ymddangos yn synhwyrol. Yn sicr, mae angen rhywfaint o resymoli – mae gormod o TAAACs ac mae gormod o broblemau wrth eu llenwi."
> – Ynad Heddwch (LJA heb ei nodi)

> "Mae 45 yn ymddangos yn rhy niferus, ond mae lleihau i 14 yn peryglu colli gwybodaeth leol neu daflu'r rhwyd yn rhy eang."
> – Ynad Heddwch (LJA heb ei nodi)

> "Er ein bod yn cytuno bod nifer y TAAACs yn ymddangos yn rhy uchel, mae eu lleihau gymaint mewn un cam yn ymddangos yn newid enfawr i'r ffordd y mae TAAACs gweithredu ar bob lefel." – Ynadon Heddwch Essex

184. Nid oedd llawer o'r ymatebwyr a anghytunodd â'r cynnig yn darparu syniadau amgen o dan C27. Awgrymodd nifer fod TAAACs mwy gydag is-bwyllgorau yn debygol o fod yn strwythur tebyg i'r TAAACs llai presennol, ac felly nad oeddent yn gweld budd y newid arfaethedig.

185. Darparwyd amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch sut y gallai is-bwyllgorau weithredu, er na ddaeth consensws cryf i'r amlwg. Nododd llawer fod is-bwyllgorau eisoes yn bodoli yn eu TAAAC ac yn gweithio'n dda. Roedd awgrymiadau'n cynnwys creu is-bwyllgorau yn ôl math o waith (e.e. mentora, gwerthusiadau, hyfforddiant), neu yn ôl mainc.

**Ein Ymateb (C26, C27)**

186. Er bod rhywfaint o gefnogaeth i leihau nifer y TAAACs, mae adborth ymatebwyr wedi bod yn glir na fyddai dull "un maint i bawb" a orfodir ar draws pob rhanbarth a Chymru yn cydnabod y daearyddiaethau gwahanol na'r cysylltiadau trafnidiaeth amrywiol. Byddai lleihau i 14 TAAAC mewn un cam hefyd yn peri risg o greu pwyllgorau a fyddai'n rhy anhylaw ac â gormod o ynadon i'w cynrychioli. Rydym yn cydnabod y gwrthwynebiad i ddefnyddio un model ar gyfer pob rhanbarth yn hyn o

beth, ac yn deall y rhesymau dros hynny. Felly, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig.

187. Fodd bynnag, fel y nodwyd, ceir rhywfaint o gefnogaeth i'r egwyddor o leihau nifer y TAAACs, yn debygol o'r rhanbarthau lle mae nifer gymharol uchel ar hyn o bryd. Byddai unrhyw leihad, fodd bynnag, angen bod ar raddfa ac ar gyflymder sy'n addas i'r rhanbarth dan sylw.

188. Ein casgliad yw na fyddwn yn gorfodi newid i nifer y TAAACs mewn unrhyw ranbarth. Yn hytrach, bydd cydweithwyr o'r Coleg Barnwrol a GLITEF yn ceisio agor trafodaethau ar sail ranbarthol gyda rhanddeiliaid ynghylch y posibilrwydd o leihau nifer y TAAACs i lefel y cytunir ei bod yn effeithlon ac yn gynaliadwy'n lleol.

189. Ni fyddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o weithrediad TAAACs fel yr awgrymodd rhai ymatebwyr, gan ein bod o'r farn eu bod, yn gyffredinol, yn cyflawni'r rôl y'u bwriadwyd ar ei chyfer, ac na fyddai hynny'n gymesur ar adeg pan fo potensial ar gyfer llawer o newid eisoes ar y gorwel yn y llysoedd ynadon.

190. Mae pob TAAAC yn cynnwys rhwng 6 a 24 o ynadon, cynrychiolydd o Gymdeithas yr Ynadon, a chynrychiolydd o GLITEF. Ar gyfer TAAACs Ynadon, rhaid cael nifer digonol o aelodau ieuenctid, ac mae aelodaeth o'r TAAAC Teulu yn gofyn am fod yn ynad cyfiawnder teulu. Mae'r Partneriaid Dysgu (LPs) yn aelodau staff y Coleg Barnwrol sy'n sicrhau bod darpariaeth hyfforddiant cenedlaethol craidd yn cael ei chyflwyno i ynadon rhanbarthol yn eu cylchdaith. Pe bai'r LPs yn dod yn aelodau statudol o'u TAAAC perthnasol, gallent sicrhau bod darpariaeth hyfforddiant yn fwy cydgysylltiedig ar draws y cyrff hyn. Mae'r LPs bron yn ddieithriad yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod TAAAC, felly mae mantais i geisio ffurfioli'r trefniant hwn mewn deddfwriaeth. Mae cynrychiolydd GLITEF eisoes yn aelod statudol o'r TAAAC, felly byddai'r newid hwn yn gosod y Coleg Barnwrol ar yr un sail â GLITEF.

**C28:** A ydych yn cytuno y dylai Partner Dysgu rhanbarthol y Coleg Barnwrol fod yn aelod statudol o'r TAAACs?

**C29:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch aelodaeth y TAAACs? Os felly, rhowch fanylion.

191. O ran yr ymatebion amlddewis i C28, ymatebodd 599 "Ydw", 110 "Nac ydw" a 499 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 42% "Ydw", 8% "Nac ydw" a 35% "Ddim yn gwybod", gyda 220 o ymatebion naill ai heb eu hateb (15%) neu heb eu pennu (0.6%).

192. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 542 o ymatebwyr i C28, a 485 i C29.

193. Croesawodd rhai ymatebwyr y cynnig yn benodol, gan gydnabod rôl hanfodol y Coleg Barnwrol wrth ddarparu hyfforddiant, ac yn cydnabod pwysigrwydd y LPs wrth gysylltu safonau hyfforddiant cenedlaethol ag anghenion lleol. Teimlwyd y byddai aelodaeth statudol yn sicrhau cysondeb mewn hyfforddiant, integreiddio cryfach â datblygiad ynadon, a chynnal dysgu o ansawdd uchel.

194. Ychwanegodd rhai ymatebwyr y byddai gwneud y LP yn aelod statudol yn gwella cydweithrediad a chyfathrebu rhwng y TAAACs a'r Coleg. Canmolwyd y gwelliant yn ansawdd hyfforddiant ers i'r Coleg Barnwrol gymryd cyfrifoldeb llawn amdano, er bod rhai o'r farn bod angen rhoi sylw gwell o hyd i ofynion hyfforddiant lleol.

195. Ymhlith y nifer fach a wrthwynebodd y cynnig hwn, codwyd pryderon ynghylch annibyniaeth farnwrol a'r posibilrwydd y byddai'r LPs yn ymwneud â materion TAAAC y tu hwnt i'w cylchdaith gwaith. Awgrymwyd y gallai'r LPs fynychu cyfarfodydd TAAAC heb ddod yn aelodau statudol; neu ddod yn aelodau statudol heb hawl pleidleisio; neu adael yn ystod trafodaethau cyfrinachol.

196. Cytunodd Cymdeithas yr Ynadon a Gweithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadaeth ill dau â'r cynnig i wneud y LP yn aelod statudol.

197. Roedd sylwadau eraill ynghylch aelodaeth TAAAC yn cynnwys barn am y lefel briodol o gynrychiolaeth o bob mainc neu awdurdodaeth; y lefel o brofiad sydd ei hangen i fod yn aelod o TAAAC; rôl cynrychiolydd Cymdeithas yr Ynadon; a hyd tymor aelodaeth aelodau.

**Ein Ymateb (C28, C29)**

198. Ceir cefnogaeth glir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i wneud y LP yn aelod statudol o'r TAAAC; roedd y cynnig yn bennaf heb wrthwynebiad. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn.

199. Er mwyn rhoi sicrwydd bod y ddeddfwriaeth yn cefnogi'r LP i weithredu o fewn ei gylch gwaith hyfforddiant, byddwn yn cynnwys darpariaethau ynghylch rôl y LP tebyg i'r rhai sydd eisoes ar waith ar gyfer cynrychiolydd GLITEF.

200. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau pellach i aelodaeth y TAAACs.

**C30:** A ydych yn credu y dylid ethol neu ddewis aelodau ynadon y TAAAC yn uniongyrchol? Rhowch resymau dros eich ateb.

201. Mae aelodau cyfiawnder a chyfiawnder teulu pob TAAAC yn cael eu penodi gan Banel Dethol, sydd yn ei dro yn cynnwys ynadon a etholir yn uniongyrchol gan eu LJAs cyfansoddol. Gall y broses ddwy gam hon ymddangos yn gymhleth, ac mae'n

gallu bod yn anodd i ardaloedd ddarparu adnoddau ar gyfer Paneli Dethol. Gofynnodd yr ymgynghoriad a yw ymatebwyr yn ffafrio proses ethol neu ddethol ar gyfer dewis aelodau ynadon y TAAAC.

202. O ran yr ymatebion amlddewis, ymatebodd 557 "Ethol", 236 "Wedi'u dewis" a 394 "Dim dewis". Fel canran o'r 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 39% "Ethol", 17% "Wedi'u dewis" a 28% "Dim dewis", gyda 241 o ymatebion naill ai heb eu hateb (15%) neu heb eu pennu (1%).

203. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 660 o ymatebwyr.

204. Tynnodd 144 o ymatebion sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gan ynadon y sgiliau a'r profiad priodol i gyflawni'r rôl yn effeithiol; roedd y safbwynt hwn wedi'i rannu ymhlith y rhai a oedd yn ffafrio ethol a'r rhai a oedd yn ffafrio dethol. Awgrymodd llawer o'r rhai a oedd yn ffafrio ethol y byddai'n fuddiol pe bai'r rhai sy'n sefyll ar gyfer ethol yn cael eu hasesu yn gyntaf ar sail eu sgiliau ar gyfer y rôl.

205. O blaid ethol, nododd 82 o ymatebwyr bwysigrwydd democratiaeth, gan bwysleisio bod aelodau TAAAC yn derbyn mandad, a theimlai 73 o ymatebwyr fod ymddiriedaeth a hyder yn y broses ac yn aelodau TAAAC yn bwysig.

206. Tynnodd rhai sylwadau sylw at y ffaith bod y broses, i ryw raddau, yn ddadleuol gan nad oes yn aml ddigon o ymgeiswyr i lenwi'r holl swyddi neu i sefyll mewn cystadleuaeth.

207. Roedd Cymdeithas yr Ynadon o blaid ethol er mwyn sicrhau cyfreithlondeb ac ymddiriedaeth. Cynigiodd Gweithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadaeth system wahanol lle byddai'r rhai a oedd yn dymuno bod yn aelodau TAAAC yn cael eu penodi'n awtomatig, gyda phroses ar waith ar gyfer achosion lle mae mwy o wirfoddolwyr na swyddi TAAAC ar gael.

208. Fodd bynnag, ymddangosai o lawer o'r ymatebion fod rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch y broses ddwy gam bresennol, a mynegwyd pryderon bod dethol yn golygu penodi ynadon i rolau yn groes i'w hewyllys. Rhannwyd hefyd safbwyntiau bod y broses bresennol yn feichus ac yn rhwystr posibl i ymgeiswyr.

> "Mae'r broses bresennol o ethol panel dethol sydd wedyn yn dewis aelodau TAAAC yn feichus ac yn ddiangen… Rydym yn credu bod y broses bresennol yn annog pobl i beidio ag ystyried y rôl hon."
> – Arweinyddiaeth Mainc Humber / Ynadon Heddwch Humber

> "Mae'r ddwy broses yn atal ceisiadau. Mae aelodaeth TAAAC angen pob cymorth posibl. Mae'r broses bresennol o ddethol drwy bwyllgor penodedig yn rhy fiwrocrataidd ac yn ddiangen." – Ynad Heddwch Swydd Buckingham

209. Er na ofynnwyd yn benodol am awgrymiadau amgen ar gyfer penodi aelodau TAAAC, rhannodd rhai ymatebwyr eu syniadau. Roedd y rhain yn cynnwys: ceisiadau i gael eu hadolygu gan gadeiryddion TAAAC; ethol gan y brif fainc; ac opsiynau cymysg, megis cyfuniad o aelodau etholedig a dethol. Y farn gyffredinol oedd y dylai'r broses fod yn symlach.

**Ein Ymateb (C30)**

210. Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr a nododd fod y broses bresennol yn rhy gymhleth, ac fod yr aneffeithlonrwydd hwn yn fwy amlwg fyth pan nad oes ond un neu ychydig iawn o ymgeiswyr ar gyfer swydd wag.

211. Rydym hefyd yn cytuno â'r rhai a nododd fod rôl TAAAC yn gofyn am sgiliau penodol y dylid eu hasesu drwy broses ddethol. Nid ydym yn cytuno â Gweithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadaeth fod y broses drylwyr o benodi ynad yn golygu y byddai pob ynad penodedig yn addas yn awtomatig ar gyfer rôl TAAAC. Rydym o'r farn bod cymwyseddau ychwanegol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â dysgu a datblygu, yn bwysig er mwyn bod yn llwyddiannus yn y rôl hon.

212. Nid ydym yn cytuno â Chymdeithas yr Ynadon mai cael mandad yw'r elfen allweddol ar gyfer aelod TAAAC, ac felly mai ethol yw'r unig ddull gorau o ddewis. Mae hyn yn wahanol i rôl arweinyddiaeth, lle gallai fod rhywfaint o resymeg dros ddefnyddio etholiadau. Gallai ethol chwarae rhan, ond ni all fod mor feichus ag y mae ar hyn o bryd, ac ni all ddod ar draul dewis ymgeisydd ar sail y cymwyseddau gofynnol.

213. Felly, rydym yn cynnig symleiddio'r broses penodi TAAAC. Mae nifer o ffyrdd gwahanol y gellid cyflawni hyn, ac felly rydym yn bwriadu gweithio gyda TAAACs ac eraill i ddylunio proses benodi sy'n parhau i fod yn deg ac yn arwain at ganlyniadau da, ond sydd yn llawer mwy effeithlon ac addas i'w diben.

**C31:** A ddylid cyfuno TAAACs Ynadon a Theulu pob ardal ymhellach i ffurfio un TAAAC fesul cylchdaith, a fyddai'n cwmpasu materion teulu a throseddol ill dau?

214. Gall cael TAAACs ar wahân ar gyfer y systemau teulu a throseddol arwain at ddyblygu, a gallai cyfuno'r pwyllgorau rannu cyfleoedd ac arfer da ar draws y ddwy awdurdodaeth, yn enwedig ar faterion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â hyfforddiant.

215. Byddai cynlluniau hyfforddi ar wahân ar gyfer teulu a throsedd yn parhau i gael eu llunio er mwyn sicrhau bod materion penodol i bob awdurdodaeth yn cael eu hystyried.

216. Mae gwaith cymeradwyo, penodi a gwerthuso yn gweithredu'n union yr un fath yn y Pwyllgorau Ynadon (troseddol) a Theulu.

217. Ar y llaw arall, oherwydd anghenion hyfforddiant gwahanol, gallai fod yn fuddiol cadw'r ddau bwyllgor ar wahân, gan sicrhau bod amser a lle ar gael ar gyfer trafodaethau penodol i deulu.

218. O ran yr ymatebion amlddewis, ymatebodd 171 "Ydw", 507 "Nac ydw" a 502 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r 1,428 o ymatebion a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 12% "Ydw", 36% "Nac ydw" a 35% "Ddim yn gwybod", gyda 248 o ymatebion naill ai heb eu hateb (16%) neu heb eu pennu (1%).

219. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 656 o ymatebwyr.

220. Roedd y gwrthwynebiadau i'r cynnig yn seiliedig yn bennaf ar y farn fod y ddwy awdurdodaeth yn rhy wahanol i'w cyfuno, gyda gwahanol anghenion ac yn gofyn am wybodaeth arbenigol (274 o ymatebion). Mynegwyd pryder penodol y byddai troseddau yn taflu cysgod ar faterion teulu mewn TAAAC cyfunol, ac na fyddai gan ddyfodiaid teulu uniongyrchol unrhyw brofiad o drosedd. Mynegodd Cymdeithas yr Ynadon y safbwynt hwn yn gryf hefyd.

221. Roedd y rhai o blaid y cynnig o'r farn, gan fod llawer o rolau TAAAC yn gorgyffwrdd, y byddai cyfuno'r ddau bwyllgor yn lleihau dyblygu, a gallai is-bwyllgorau ddelio ag unrhyw faterion penodol i awdurdodaeth.

222. Cytunodd rhai ymatebwyr y gallai mwy o gydweithrediad rhwng JTAAACs a FTAAACs leihau rhywfaint o ddyblygu a'u galluogi i ddatrys materion cyffredin, ond awgrymasant y gellid cyflawni hyn heb gyfuno'r ddau. Mae rhai rhanbarthau eisoes yn cynnig enghreifftiau da o hyn y gellid dysgu oddi wrthynt.

223. Roedd rhai ymatebwyr yn agored i gyfuno JTAAACs a FTAAACs ar lefel yr LJA presennol, fel dewis arall yn lle creu TAAACs mwy ar lefel cylchdaith. Cefnogodd Gweithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadaeth gyfuno'r ddau fath o TAAAC. Er yn cydnabod y dadleuon yn erbyn JTAAACs a FTAAACs cyfunol, cynigiodd y gallai hyn gael ei reoli (fel yn C26) drwy ddyrannu tua 2,000 o ynadon fesul TAAAC, gyda un neu ddwy TAAAC fesul cylchdaith, heb eu rhannu yn ôl awdurdodaeth.

224. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai lleihau i un TAAAC fesul rhanbarth a Chymru yn rhy ddramatig ar hyn o bryd, ond yn bosibilrwydd ar gyfer y dyfodol.

**Ein Ymateb (C31)**

225. Rydym yn ymwybodol o'r lefel uchel o newid posibl sydd ar y gorwel ar gyfer ynadon ar hyn o bryd, yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol ac wrth weithredu Deddf Dedfrydu 2026.

226. Byddai cyfuno FTAAACs a JTAAACs hefyd yn gofyn am ddeddfwriaeth ychwanegol.

227. Fodd bynnag, mae'n fater y gallwn ei ailymweld ag ef ar yr adeg briodol yn y dyfodol.

**C32:** A oes gennych unrhyw fyfyrdodau pellach ynghylch y TAAACs? Os felly, rhowch fanylion.

228. Darparodd cyfanswm o 202 o ymatebwyr allan o 1,428 fyfyrdodau pellach ynghylch y TAAACs. Roedd rhai o'r rhain yn ailadrodd neu'n ymestyn sylwadau blaenorol ymatebwyr, tra roedd eraill yn fwy cyffredinol neu'n ymwneud â materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad, megis gweithdrefnau gwerthuso.

229. Roedd y sylwadau mwyaf cyffredin yn cyffwrdd â'r farn y dylid adolygu TAAACs ar wahân i'r ymgynghoriad hwn, effaith negyddol y newidiadau arfaethedig ar recriwtio i rolau TAAAC, a cholli cyfiawnder lleol.

230. Cyfeiriwyd yn aml hefyd at y ffaith bod ynadon yn wirfoddolwyr ac y dylid eu trin felly, gan gynnwys cydnabod yr amser a roddant a chynnal disgwyliadau realistig o ran yr hyn y gallant ei gynnig o amgylch ymrwymiadau personol. Codwyd hefyd bryder ynghylch effaith yr holl newidiadau arfaethedig ar eu cymhelliant.

231. Roedd sylwadau eraill yn cwmpasu amrywiaeth o faterion megis lleoliadau hyfforddi, cyfarfodydd TAAAC, yr angen i roi mwy o gyhoeddusrwydd i waith a phroffil TAAACs, a mwy o gymorth gweinyddol ar eu cyfer.

**Ein Ymateb (C32)**

232. Nid ydym yn cytuno bod angen adolygiad ar wahân o'r TAAACs. Fel y nodwyd yn gynharach, byddai lefel y newid posibl sydd ar y gorwel yn gwneud unrhyw adolygiad o'r fath, heb gyfiawnhad llawn, yn anghymesur ac yn peri risg.

233. Rydym yn llwyr gydnabod natur wirfoddol rôl yr ynad a'r galwadau ar amser ynadon. Dyna pam rydym yn ceisio symud i ffwrdd o'r broses benodi TAAAC sy'n cymryd llawer o amser, fel y nodwyd yn gynharach, er mwyn gweithredu trefniant mwy effeithlon, ac yn bwriadu agor trafodaethau ar sail ranbarthol ynghylch lleihau nifer y TAAACs, ond yn llym yn ddarostyngedig i gytundeb lleol.

234. Yn olaf, rydym hefyd yn cytuno bod angen i'r Coleg weithio gyda'r TAAACs i godi proffil eu gwaith a'r cyfleoedd rhagorol a gynigir gan rôl aelod TAAAC.

# Asesiad o Effaith, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

## Asesiad o Effaith

**Crynodeb**

235. Yn y ddogfen ymgynghori, esboniwyd ein hasesiad fel a ganlyn:
- Cyhoeddwyd Asesiad o Effaith yn ystod hynt Deddf Adolygu Barnwrol a Llysoedd 2022, a oedd yn cynnwys manylion ynghylch y manteision cost a ragwelwyd o ddiddymu Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs).
- Ni chynhyrchwyd Asesiad o Effaith newydd i gyd-fynd â'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng Mawrth a Mehefin 2025 gan nad oedd unrhyw un o'r cynigion yn y ymgynghoriad hwn yn cyflwyno rheoliadau newydd ar y sector preifat nac yn peri cost o £5 miliwn neu fwy i'r pwrs cyhoeddus.
- Roedd datganiad cydraddoldeb yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad. Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar gydraddoldeb.

**C33:** Beth yn eich barn chi yw effeithiau'r opsiynau diwygio arfaethedig ar unigolion â nodweddion gwarchodedig? Rhowch resymau.

236. Nid oedd elfen amlddewis i C33. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 587 o ymatebwyr.

**C34:** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir ystod a maint yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion hyn? Rhowch resymau a chyflwynwch dystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo'n briodol.

237. O ran yr ymatebion amlddewis, ymatebodd 175 "Ydw", 238 "Nac ydw" a 577 "Ddim yn gwybod". Fel canran o'r 1,290 o ymatebion ar-lein a dderbyniwyd, mae hyn yn cyfateb i 14% "Ydw", 19% "Nac ydw" a 45% "Ddim yn gwybod", gyda 23% (300 o ymatebion) heb eu hateb. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 278 o ymatebwyr.

**C35:** A oes mesurau lliniaru mewn perthynas ag effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi'u hystyried?

238. Nid oedd elfen amlddewis i C35. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 361 o ymatebwyr.

**C36:** A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym ynghylch ein newidiadau arfaethedig i ardaloedd cyfiawnder lleol mewn perthynas â recriwtio, dyrannu, arweinyddiaeth a hyfforddiant?

239. Nid oedd elfen amlddewis i C36. Darparwyd sylwadau testun rhydd gan 697 o ymatebwyr.

240. Gwelwyd dirywiad cyffredinol yn y gyfradd ymateb tuag at ddiwedd yr ymgynghoriad, fel y nodwyd gan ymatebwyr a amlygodd gyfyngiadau amser wrth geisio ateb pob cwestiwn. Dangosir hyn gan y ffaith bod bron i 80% o ymatebwyr heb ddarparu sylwadau pellach ar gyfer C34. Yn ogystal, thema ailadroddus yn yr adran hon oedd bod llawer o ymatebwyr yn nodi y byddai'n anodd pennu effeithiau ar gydraddoldeb hyd nes y byddai'r newidiadau wedi'u gweithredu.

241. Fodd bynnag, ymhlith y sylwadau testun rhydd a dderbyniwyd, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn ansicr a oeddem wedi nodi'n gywir ystod a maint yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan ein cynigion. Nododd rhai ymatebwyr y gallai'r terfyn arfaethedig o 90 munud ar gyfer amser teithio, yn ogystal â'r cynigion ynghylch dyrannu, effeithio'n negyddol ar y rhai â chyfrifoldebau gofalu, anableddau, ac o bosibl greu gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail oedran drwy effeithio ar ynadon hŷn â phroblemau symudedd.

242. Nododd rhai ymatebwyr y gallai newidiadau i'r cynigion dyrannu effeithio'n negyddol ar ynadon ag anableddau oherwydd amrywiadau mewn hygyrchedd stadau a chyfleusterau llysoedd, gyda rhai lleoliadau'n methu â darparu cefnogaeth ddigonol i ynadon anabl.

243. Er nad yw'n nodwedd warchodedig, awgrymodd nifer fechan iawn o ymatebwyr y gallai pellteroedd teithio mwy effeithio ar y rhai nad oes ganddynt fynediad dibynadwy at gar neu sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac felly y gallai unigolion ar incwm isel ymatal rhag ymuno neu barhau yn yr ynadaeth. Nododd nifer fechan iawn o ymatebwyr hefyd y potensial ar gyfer effeithiau amgylcheddol pe bai cynnydd ym maint meinciau a theithio yn cael ei weithredu.

244. Awgrymodd nifer fechan o ymatebion na fyddai unrhyw effeithiau ar unigolion â nodweddion gwarchodedig, neu nad oedd ganddynt fesurau lliniaru pellach i'w hychwanegu y tu hwnt i'r rhai a ystyriwyd eisoes.

**Ein Ymateb (C33–C36)**

245. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a'r Swyddfa Farnwrol wedi cyhoeddi Asesiad o Effaith wedi'i ddiweddaru ac Asesiad o Effaith ar y Gymraeg ochr yn ochr â'r ymateb ffurfiol hwn i'r ymgynghoriad, yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion.

# Datganiad Cydraddoldeb

246. Cyhoeddwyd Datganiad Cydraddoldeb ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Yn dilyn ystyriaeth o adborth yr ymgynghoriad a newidiadau sylweddol i'r cynigion gwreiddiol, rydym bellach wedi cynhyrchu Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb diwygiedig sy'n adlewyrchu'r penderfyniadau polisi terfynol. Mae'r asesiad diwygiedig hwn yn cyd-fynd ag ymateb ffurfiol ar y cyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a'r uwch farnwriaeth, ac mae ar gael ar GOV.UK.

247. Daw'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb diwygiedig i'r casgliad nad yw'r penderfyniadau polisi terfynol yn debygol o arwain at effeithiau sylweddol ar gydraddoldeb. Mae'r rhan fwyaf o'r risgiau posibl wedi'u lliniaru drwy dynnu cynigion â'r effaith fwyaf yn ôl a pharhau â threfniadau eistedd sefydledig sy'n cael eu deall yn lleol. Lle mae risgiau lefel isel yn parhau, gellir eu rheoli drwy brosesau addasiadau rhesymol presennol, trefniadau dyrannu hyblyg, ac ymgysylltiad parhaus ag ynadon ac arweinyddiaeth.

## Y Gymraeg

248. Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar y Gymraeg diwygiedig ar gyfer y cynigion terfynol ynghylch Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru. Bydd holl ffiniau LJAs Cymru yn cadw eu lleoliad daearyddol presennol, yn trosglwyddo o ffiniau statudol i ffiniau gweinyddol ac yn cael eu cyfeirio atynt fel "meinciau". Ni fydd unrhyw uno yn mynd rhagddo—gan gynnwys yr uno arfaethedig yng Ngogledd Cymru—mae'r hawl statudol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol yn parhau wedi'i diogelu'n llawn, a bydd mynediad at lysoedd, staff ac ynadon Cymraeg yn cael ei gynnal. Daw'r asesiad i'r casgliad nad yw'r dull diwygiedig yn debygol o greu effeithiau andwyol ar ddarpariaeth y Gymraeg. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol yn parhau i gydymffurfio â dyletswyddau'r Gymraeg ac yn cynnal yr egwyddor na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gellir gweld yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg llawn yma: https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas

# Casgliad a'r Camau Nesaf

Dangosodd yr ymgynghoriad ymgysylltiad cryf ac roedd yn glir, er bod ymatebwyr yn deall y rhesymau dros ddiddymu Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, eu bod yn llethol o blaid cadw hunaniaeth leol gryfach, disgwyliadau teithio rhesymol, a strwythurau sy'n cefnogi recriwtio, amrywiaeth a morâl. Roedd pryderon ynghylch ardaloedd mwy neu uno ardaloedd—gan gynnwys baich teithio, colli gwybodaeth leol, ac effeithiau ar gynhwysiant—yn gyson ar draws yr ymatebion.

Yng ngoleuni'r adborth hwn, bwriadwn **gadw'r 75 o ffiniau daearyddol presennol** a mapio'r strwythur Meinciau newydd yn uniongyrchol arnynt. Gall diwygiadau cyfyngedig a thargededig fynd rhagddynt lle mae angen penodol. Gall rhanbarthau archwilio rhesymoli TAAACs, ond ni fydd hyn yn cael ei orfodi.

Mae Asesiadau o Effaith llawn, gan gynnwys Asesiad o Effaith ar y Gymraeg, wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn. Yn y man, byddwn yn cydweithio i weithredu'r newidiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn.

# Egwyddorion Ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018, sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr

O fewn y 1,428 o ymatebion, derbyniwyd ymatebion ar y cyd gan y grwpiau canlynol:

FTAAAC Avon, Gwlad yr Haf a Swydd Gaerloyw

Cangen Berkshire o Gymdeithas yr Ynadon

Mainc Birmingham a Solihull

Mainc Swydd Buckingham

Mainc Swydd Gaergrawnt

JTAAACs Caergrawnt ac Essex

Ardal Cyfiawnder Lleol Ceredigion a Sir Benfro

Mainc Canol Caint

Mainc Canol Llundain

Mainc Canol Gogledd Orllewin Cymru

Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEX)

FTAAAC Cleveland, Darlington a Swydd Durham, Gogledd Northumbria a De Northumbria (CDN)

Tîm Arweinyddiaeth Coventry a Swydd Warwick

FTAAAC Cumbria a Swydd Gaerhirfryn

JTAAAC Swydd Derby a Swydd Nottingham

Panel Ieuenctid Swydd Derby, Mainc De Swydd Derby

Mainc Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon)

Pwyllgor Ymgynghorol Dorset, Dyfnaint a Chernyw

Mainc Dwyrain Caint

Ardal Cyfiawnder Lleol Swydd Gaerloyw

FTAAAC Llundain Fwyaf

Mainc Swydd Henffordd

Panel Ieuenctid Swydd Henffordd

Ardal Cyfiawnder Lleol Humber

Rhwydwaith Uwch Reolwyr Cyfreithiol Teulu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

Tîm Arweinyddiaeth Mainc Swydd Gaerhirfryn

JTAAAC Llundain

Cymdeithas yr Ynadon

Gweithrediaeth Arweinyddiaeth yr Ynadaeth

Mainc Canolbarth Cymru

Mainc Teulu Canolbarth Cymru

Mainc Norfolk

Mainc Gogledd a Dwyrain Swydd Hertford

RTAAAC Gogledd Ddwyrain Lloegr

Grŵp Ffocws Rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr

Ardal Cyfiawnder Lleol Gogledd Essex

Mainc Gogledd Orllewin Cymru

Mainc Swydd Nottingham

Mainc Swydd Amwythig

Mainc De-ddwyrain Llundain

Mainc De Essex

Mainc Ynadon Swydd Stafford

Mainc Suffolk

JTAAAC Surrey a Sussex

Meinciau Dwyrain Sussex, Canol Sussex a Gorllewin Sussex

Grŵp Busnes Barnwrol Cymru

Fforwm Cadeiryddion Paneli Ieuenctid Cymru

Mainc Gorllewin a Chanol Swydd Hertford

Mainc Gorllewin Morgannwg

JTAAAC a FTAAAC Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Warwick

Mainc Swydd Gaerwrangon

Cyngor Dosbarth Wyre Forest

# Atodiad B: Tablau

| LJAs yn erbyn uno | Ardal Mainc Arfaethedig |
|---|---|
| Birmingham a Solihull; Black Country; Coventry a Swydd Warwick | Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| Berkshire; Swydd Buckingham; Swydd Rydychen | Dyffryn Tafwys |
| Canol Caint; Dwyrain Caint; Gogledd Caint | Caint |
| Gogledd Essex; De Essex | Essex |
| Sussex (Canol); Sussex (Dwyrain); Gorllewin Sussex | Sussex |
| Swydd Henffordd; Swydd Amwythig; Swydd Gaerwrangon | Gorllewin Mercia |
| Gogledd Northumbria; De Northumbria | Northumbria |
| Caerdydd; Canolbarth Cymru (Ardal De Cymru); Abertawe | De Cymru |
| Gogledd Canolbarth Cymru; Gogledd-ddwyrain Cymru; Gogledd-orllewin Cymru | Gogledd Cymru |
| Gogledd a Gorllewin Cymbria; De Cymbria | Cymbria |
| Gogledd a Dwyrain Dyfnaint; De a Gorllewin Dyfnaint | Dyfnaint |

| LJAs o blaid rhyw fath o newid | Diwygiadau a awgrymwyd yn yr ymgynghoriad |
|---|---|
| Gogledd Hampshire | Gallai elwa o uno ag ardaloedd cyfagos agos |
| Sir Benfro a Cheredigion (a nodwyd yn anghywir fel dau LJA ar wahân yn yr ymgynghoriad) | Gallai elwa o gael ei rhannu |
| Sir Drefaldwyn | Sawl awgrym o wahanol ffyrdd y gallai'r ardal hon elwa o uno ag ardaloedd cyfagos |
| Avon a Gwlad yr Haf | Gallai elwa o gael ei rhannu'n ardaloedd llai |
| Gogledd Northumbria; De Northumbria | Gallai elwa o uno gyda'i gilydd |
| Gogledd Caint; Canol Caint; Dwyrain Caint | Byddai uno'r tair ardal yn rhy fawr, ond gellid eu huno'n ddwy ardal fainc os oes angen (awgrymiadau gwahanol o uno Gogledd a |

| **LJAs o blaid rhyw fath o newid** | **Diwygiadau a awgrymwyd yn yr ymgynghoriad** |
|---|---|
| | Chanol Caint, neu greu Dwyrain a Gorllewin Caint) |
| Swydd Henffordd; Swydd Amwythig; Swydd Gaerwrangon | Sawl awgrym ynghylch gwahanol ffyrdd y gellid uno'r ardaloedd hyn os oes angen, ond gwrthwynebiad i uno'r tair ardal gyda'i gilydd |
| De Cymbria | Gallai elwa o uno â Gogledd Cumbria neu Swydd Gaerhirfryn |
| Swydd Durham; Cleveland | Gallai elwa o uno gyda'i gilydd |
| Swydd Gaer; Glannau Mersi | Gallai elwa o uno gyda'i gilydd |
| Gogledd Swydd Derby; De Swydd Derby | Gallai elwa o drafodaethau pellach gan fod cefnogaeth a gwrthwynebiad i uno ill dau wedi'u mynegi |

E03572403

978-1-5286-6358-8